**Y Pwyllgor Diwylliant - CC-6-02(p.2)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 8 March 2002 |
| **Amser:** | 9.00am-12.00pm |
| **Lleoliad:** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

## CYNLLUNIO IEITHYDDOL – PAPUR TRAFOD A BARATOWYD GAN YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR DIWYLLIANT

### CYFLWYNIAD

Yn ei lyfr "Language Death", mae’r Athro David Crystal o Brifysgol Bangor yn amcangyfrif yn ystod y ganrif hon, o’r 6,000-7,000 o ieithoedd yn y byd, bydd tua 2 yn marw bob mis. Yn achos y Gymraeg fodd bynnag, mae rhai ffactorau sylfaenol wedi arafu ei dirywiad dros y degawdau diwethaf, gan gynnwys y cynnydd mewn addysg ddwyieithog, sefydlu sianel deledu Gymraeg a phasio deddfwriaeth amddiffynnol (Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 a 1993). Cynllunio ieithyddol gofalus y blynyddoedd diweddar yw un o’r prif resymau pam fod y Gymraeg wedi symud o ddirywiad cyflym i, yn ôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg, "sefyllfa o gynhaliaeth ieithyddol".

Mae nifer o gyfranwyr i’r arolwg hwn wedi dweud mai cynllunio ieithyddol yw un o brif arfau’r Cynulliad i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a bod angen i’r Pwyllgor ystyried materion cynllunio ieithyddol yn ei argymhellion. Mae’r papur hwn yn rhoi:

- trosolwg o’r hyn sydd eisoes yn cael ei wneud gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn y maes cynllunio ieithyddol,
- crynodeb o’r dystiolaeth a dderbyniwyd ar gynllunio ieithyddol yn ystod yr arolwg ac,
- yn awgrymu rhai materion a chwestiynau i’w trafod.

Mae hwn yn faes cymhleth, ac nid yw papur trafod megis hwn yn debygol o wneud cyfiawnder â’r pwnc. Fodd bynnag, wrth geisio llunio argymhellion yn y maes hwn, efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried y chwe ffactor arwyddocaol y mae’n rhaid wrthynt, yn ôl yr Athro Crystal, i ieithoedd sydd dan fygythiad allu symud yn eu blaenau. Mae’r Athro Crystal yn nodi: "an endangered language will progress if its speakers:

- Increase their prestige within the dominant community
- Increase their wealth relative to the dominant community
- Increase their legitimate power in the eyes of the dominant community
- Have a strong presence in the educational system
- Can write their language down
- Can make use of electronic technology"

**CEFNDIR**

Y man cychwyn mwyaf priodol i'r Pwyllgor wrth ystyried materion cynllunio ieithyddol yw dogfen Bwrdd yr Iaith "Cenhadaeth a Gweledigaeth: 2000-2005". O safbwynt Bwrdd yr Iaith mae dau reswm syml a sylfaenol pam fod ieithoedd yn marw ac mae gan y ddau arwyddocâd i ddyfodol y Gymraeg, "Bydd ieithoedd yn marw pan fydd rhieni sydd â'r gallu i siarad yr iaith leiafrifol yn siarad yr iaith fwyafrifol yn y cartref ... a phan fydd addysg yn cael ei chyflwyno trwy gyfrwng yr iaith fwyafrifol".

Mae *Cenhadaeth a Gweledigaeth* yn nodi pedwar math o gynllunio ieithyddol sy'n angenrheidiol er mwyn i iaith oroesi:

- Cynllunio Caffaeliad
- Cynllunio Defnyddio
- Cynllunio Statws
- Cynllunio Corpws

O dan pob penawd mae targedau a cherrig milltir i'w cyrraedd ar y ffordd i gwrdd â'r targedau hynny. Byddwn yn edrych ar bob un o'r penawdau yn eu tro:

1. **Cynllunio Caffaeliad Iaith**

***Rhai ffeithiau a ffigurau***

Mae ymchwil ddiweddar gan Beaufort ar drosglwyddo iaith (*State of the Language 2000*) yn awgrymu cyfradd trosglwyddo o 90% pan fo'r ddau riant yn siarad Cymraeg, 56% pan fo'r fam yn unig yn siarad Cymraeg a 46% pan fo'r Tad yn unig yn siarad Cymraeg.

Nododd yr un ymchwil pan fo'r ddau riant yn siarad Cymraeg, Cymraeg yw cyfrwng y cartef drwy'r amser neu hanner yr amser; os y fam yn unig sy'n siarad Cymraeg, Saesneg yw cyfrwng 68% o weithgarwch y cartref, ac os y tad yn unig sy'n siarad Cymraeg, Saesneg yw cyfrwng 75% o weithgarwch y cartref. Nododd Heini Gruffydd yn ei draethawd *Planning for the Use of Welsh by Young People* yn *Language Revitalisation* (gol. Yr Athro Colin Williams) o

ymchwil a wnaed gan Brifysgol Cymru, Abertawe "there seems to be a clear need, if Welsh is to regain its dominance in the home, for parents to be aware of their possible linguistic contribution…..The vast majority of young people who succeeded in using Welsh as their main language came from Welsh-speaking homes, in both Welsh and English-speaking communities".

***Beth mae Bwrdd yr Iaith yn ei wneud***

Mae *Cenhadaeth a Gweledigaeth* yn nodi dwy gydran i gynllunio caffaeliad iaith:

- Trosglwyddo iaith yn y teulu
- Addysg Cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Mae'r olaf heb os nac oni bai yn ffactor hanfodol yn natblygiad yr iaith, ond heblaw am addysg feithrin ac addysg i oedolion, nid yw'n cwympo o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor. Er mwyn cyflawni'r cyntaf, mae Bwrdd yr Iaith wedi gosod y targedau canlynol:

- Darparu gwybodaeth, cyngor, arweiniad a chefnogaeth i rieni newydd ar fanteision dwyieithrwydd cynnar
- Erbyn canlyniadau arolwg rhag-gyfrifiadol 2006, cynyddu'r nifer sy'n trosglwyddo iaith yn y cartref lle bo'r ddau riant yn siarad Cymraeg ac mewn cartrefi lle bo un rhiant yn siarad Cymraeg.

***Beth oedd argymhellion yr ymgynghoriad***

Derbyniodd y Pwyllgor gryn dipyn o dystiolaeth ar bwysigrwydd trosglwyddo iaith rhwng cenedlaethau. Roedd cefnogaeth i'r safbwynt na all iaith weithredu ar lefel gymunedol oni bai ei bod yn cael ei throsglwyddo gan rieni. Teimlodd rhai cyrff bod y sefyllfa yn debygol o waethygu mewn blynyddoedd i ddod. Nododd un, "Y mae'r bwlch rhwng y cenedlaethau yn ehangu fel y mae'r nifer o enedigaethau i rieni 20-29 mlwydd oed yn gostwng a nifer y babanod a enir i famau dros 35 oed yn cynyddu. Y mae hynny'n arafu'r broses o drosglwyddo'n rhyng-genhedlaethol. Serch hynny, y mae'n rhoi mwy o amser i feithrin cymhelliant ac i hyrwyddo caffaeliad iaith ymhlith pobl yn eu dau-ddegau". Galwodd yr un corff am fwy o fuddsoddi i wella sgiliau iaith rhieni a darpar rieni, er mwyn gwella sgiliau iaith plant ifanc.

Canmolodd un academydd fentrau'r Bwrdd Iaith i ddarparu gwybodaeth ar becynnau Bounty ar gyfer mamau newydd a thrwy hyfforddi Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd i annog rhieni newydd i ystyried iaith y cartref. Aeth yn ei flaen i bwysleisio rôl bwysig y Mudiad Ysgolion Meithrin yn ei gyfraniad at addysg Gymraeg.

Cynigiwyd amrywiaeth o atebion ar sut y gallai'r Cynulliad wella trosglwyddiad iaith. Yn eu

plith, sefydlu Ardaloedd Datblygu Ieithyddol Arbennig a fyddai'n adlewyrchu gwahanol agweddau at yr iaith a statws yr iaith rhwng siroedd megis Gwynedd a Sir Fynwy.

Cynigiwyd marchnata gwell fel ateb. Teimlodd un corff y dylid lansio ymgyrch cyhoeddusrwydd cenedlaethol i bwysleisio pwysigrwydd trosglwyddo iaith yn y cartref. Roedd Bwrdd yr Iaith a'r Mentrau Iaith am i'r Cynulliad gynnal ymgyrch parhaus i farchnata dwyieithrwydd yng Nghymru.

Ar nodyn mwy cyffredinol, roedd galw i sefydlu Canolfan Cynllunio Iaith mewn partneriaeth rhwng y Cynulliad Cenedlaethol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Awdurdodau Lleol a'r byd academaidd.

1. **Cynllunio defnyddio**

***Rhai ffeithiau a ffigurau***

Cafodd yr argraff bod mwy o siaradwyr Cymraeg "bob dydd" hen nac ifanc ei chadarnhau yn yr arolwg a gynhaliwyd gan Brifysgol Cymrue Abertawe, sy'n dyfynnu Heini Gruffydd. Dangosodd mai dim ond 41% o oedolion ifanc sy'n defnyddio'r Gymraeg fel prif gyfrwng cyfathrebu â'u cyfoedion Cymraeg. Roedd 22% pellach yn siarad Cymraeg hanner gwaith yn llai. Dangosodd arolwg arall bod tua 40% o oedolion sy'n siarad Cymraeg yn teimlo'n ddi-hyder wrth ddefnyddio'r iaith.

***Beth mae Bwrdd yr Iaith yn ei wneud***

Mae *Cenhadaeth a Gweledigaeth* yn nodi bod angen cynllunio a defnyddio'r Gymraeg mewn dau brif faes:

- Defnyddio'r Gymraeg fel offeryn (e.e. defnydd economaidd)
- Defnyddio'r Gymraeg yn gyfunol (e.e. defnydd cymdeithasol, diwylliannol, hamdden a chymunedol)

Targedau a nodir gan y Bwrdd yn y meysydd hyn yw:

Offerynnol -

- Datblygu a hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn y sector breifat
- Marchnata a datblygu hyfforddiant galwedigaethol a defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle
- Monitro defnydd offerynnol yr iaith

Cyfunol -

- Ehangu a datblygu gweithgarwch iaith yn y gymuned
- Cynyddu cost effeithiolrwydd adnoddau
- Monitro defnydd cyfunol yr iaith

***Beth oedd argymhellion yr ymgynghoriad***

Dangosodd ymatebion yr ymgynghoriad bod cynnydd yn y defnydd cyfunol o'r iaith. Mae datblygiad y Mentrau Iaith, gwaith cymdeithas dysgwyr Cymraeg CYD, a gwaith nifer o sefydliadau lleol wedi darparu mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn bywyd bob dydd. Mae gwaith yr Urdd a Chymdeithas y Ffermwyr Ifanc hefyd wedi rhoi cyfle i bobl ifanc ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth. Roedd galw fodd bynnag i'r Mentrau Iaith gael eu "cefnogi a'u cyllido'n well". Galwodd un corff i gynllun gael ei ddatblygu i ddefnyddio symbylwyr iaith a fyddai'n gallu cynnig arbenigedd cynllunio iaith dwys o fewn cymunedau.

Nid oedd y darlun bob tro'n galonogol. Rhoddodd un awdurdod lleol fanylion am y diffyg cyfleoedd i ddisgyblion gael cyswllt drwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i oriau ysgol, er bod galw clir amdano ymysg siaradwyr Cymraeg; nododd ymatebwyr eraill bod nifer o oedolion ifanc yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn 5-10 mlynydd wedi gadael adael yr ysgol.

O ran defnydd offerynnol yr iaith, cymysg oedd y darlun. Roedd nifer o gyrff y sector cyhoeddus megis awdurdodau lleol yn ymwybodol o fanteision dwyieithrwydd i'w staff ac roeddynt yn darparu cymhellion ac amser i'w staff i ddysgu'r iaith. Roedd tystiolaeth hefyd bod cyflogwyr yn rhoi mwy o werth ar sgiliau dwyieithog, ffaith a nodwyd gan ELWa a oedd o'r farn mai un o'i dasgau pwysicaf yw codi'r galw am fyfyrwyr a hyfforddeion i gwrdd â'r angen.

Teimlodd nifer o ymatebwyr y dylid gwneud mwy i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y sector preifat. Adlewyrchwyd diffyg defnydd o'r iaith yn y sector preifat yng nghanlyniadau arolwg a gomisiynwyd gan y Federasiwn Busnesau Bach ym 1999, a phan nododd ond 8% o'u haelodau eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.

Roedd nifer o ymatebwyr yn credu bod amcanion a gwaith Menter a Busnes yn deilwng o'u cefnogaeth, yn wir nodwyd bod y corff yn chwarae rôl strategol allweddol wrth godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd economaidd defnyddio'r iaith.

Cafwyd tystiolaeth gref gan y sector busnes na ddylai'r Cynulliad osod gofynion ar gwmniau preifat o ran yr iaith Gymraeg. Yng ngeiriau'r CBI, "compulsion would remove the goodwill that exists towards the language amongst business".

1. **Cynllunio statws**

***Beth mae Bwrdd yr Iaith yn ei wneud***

Mae *Cenhadaeth a Gweledigaeth* yn nodi'r targedau canlynol mewn perthynas â chynllunio statws:

- Hyrwyddo'r iaith ar y Rhyngrwyd
- Datblygu cysylltiadau cynllunio iaith (e.e. sefydliadau cynllunio iaith yn Ewrop)
- Goruwchwylio'r dasg o roi cynlluniau iaith Gymraeg ac o ddarparu gwasanaeth dwyieithog

***Beth oedd argymhellion yr ymgynghoriad***

Roedd mwyafrif yr ymatebion ar statws yr iaith yn ymwneud â'r angen i'r Gymraeg gael ei mwy o gydnabyddiaeth, swyddogaeth a chynhwysedd. Er bod Deddf 1993 wedi codi statws yr iaith, galwodd nifer o ymatebwyr i'r Gymraeg gael statws "swyddogol" fel ag sydd gan y Basgeg a Chatalaneg. Nododd Bwrdd yr Iaith mai'r peth pwysicaf y gallai'r Cynulliad ei wneud i godi statws yr iaith fyddai mabwysiadu strategaeth *Cenhadaeth a Gweledigaeth* y Bwrdd. Mae defnyddio'r Gymraeg yn y Cynulliad yn cael ei weld fel ffactor sy'n codi ei statws ac yn creu delwedd gadarnhaol i'r rheini sy'n gwneud dewisiadau ieithyddol.

Roedd tystiolaeth bod statws yr iaith ymhlith pobl ifanc ar drai. Dywedodd disgyblion ysgolion uwchradd nad oedd yr iaith yn cael ei gweld yn beth "cool" ymhlith eu cyfoedion mewn sesiwn adolygu a gynhaliwyd gan Bwyllgor Canolbarth Cymru.

Cafwyd rhai sylwadau uniongyrchol ar sut y gellid hyrwyddo'r iaith ar y Rhyngrwyd er bod y Pwyllgor wedi derbyn cyflwyniad ar y pwnc hwn gan Imaginet. Am syniadau ar botensial technoleg newydd i ddyfodol yr iaith Gymraeg, dylai'r Pwyllgor gyfeirio at babur sefyllfa'r Cadeirydd (CC-5-02(p.2a) a phapur yr Ymgynghorydd Arbenigol ar TGCh (CC-6-02(p.3)).

1. **Cynllunio Coprws**

***Beth mae Bwrdd yr Iaith yn ei wneud***

Mae *Cenhadaeth a Gweledigaeth* yn nodi bod cynllunio corpws yn canolbwyntio ar ddau syniad:

- Yr angen am safoni ieithyddol
- Yr angen i ddatblygu ffurf ar Gymraeg sy'n boblogaidd, yn fuddiol ac yn cael ei defnyddio

Targed y Bwrdd ar gyfer cynllunio corpws yw:

- Datblygu a safoni terminoleg a chyfieithu

***Beth oedd argymhellion yr ymgynghoriad***

Ni chafwyd llawer o sylwadau ar gynllunio corpws yn yr ymgynghoriad. Ond o ddweud hynny, ymhlith y rheini a wnaeth sylwadau, ymddangosodd rhaniad clir rhwng y rheini oedd yn cytuno y dylai’r iaith ddatblygu i adlewyrchu newidiadau mewn diwylliant, ideoleg a ffyrdd o gyfathrebu a’r rheini oedd am gadw purdeb ieithyddol. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan un grwp oedd yn beirniadu’r BBC ac S4C am "seisnigo’r" iaith yn eu rhaglenni.

Atgoffwyd y Pwyllgor o’r gwaith pwysig sy’n cael ei wneud gan Ganolfan Bedwyr ym maes safoni iaith. Galwodd nifer o ymatebwyr am gorff cenedlaethol a fyddai’n gyfrifol am safoni iaith.

**RHAI MATERION A CHWESTIYNAU I’R PWYLLGOR EU HYSTYRIED**

O ganlyniadau’r ymgynghoriad ymddengys nad oes neb yn dadlau ynghylch rhinweddau cynllunio iaith holistaidd, nac am y strategaeth mae Bwrdd yr Iaith wedi ei chreu i gyflawni ei amcanion cynllunio. Fodd bynnag, ni ellir ynysu trafodaeth am faterion cynllunio ieithyddol oddi wrth drafodaeth am rôl a pherthynas gwahanol gyrff gweithredol, yn enwedig rhwng y Cynulliad a’r Bwrdd Iaith. Bydd y Pwyllgor yn derbyn papur trafod ar rolau ym mis Ebrill, ond efallai bydd am ystyried rôl y Cynulliad vis-à-vis Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Mae’r Athro Colin Williams yn dadlau yn *Language Revitalisation* bod natur perthynas y Cynulliad â’r Bwrdd yn hanfodol i ddyfodol yr iaith. Yn ei farn ef, mae gan y Cynulliad ddau ddewis: gall un ai drosglwyddo cyfrifoldebau’r Bwrdd iddo’i hun, neu – a dyma’r dewis sydd yn well gan y Cynulliad - gallai "strengthen the co-ordinating function of the Language Board, which would militate against the severe fragmentation that has also bedevilled previous efforts at language promotion".

Rhai cwestiynau a materion i’w trafod:

- Ydy’r Pwyllgor yn cytuno bod rhoi cynllunio iaith holistaidd ar waith yn un o’r ffactorau allweddol sy’n diogelu ac yn gwella dyfodol yr iaith?

- Os felly, ydy’r Pwyllgor yn dymuno cefnogi a mabwysiadu’r amcanion a’r targedau a nodir yn *Cenhadaeth a Gweledigaeth 2000-2005,* gyda’i ganlyniadau ariannol annatod?
- Os nad yw’n dymuno mabwysiadu’r ddogfen, ydy’r Pwyllgor yn dymuno awgrymu rhai blaenoriaethau ymhlith yr amcanion a’r targedau a nodir yn y Strategaeth?
- Efallai yr hoffai’r Pwyllgor hefyd drafod rhai o’r awgrymiadau y cyfeirir atynt yn y papur hwn sydd wedi deillio o’r ymgynghoriad.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mawrth 2002**